Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Mehefin 11eg, 2015 yn brydlon am 7-00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

1. Arwyddo Datganiadau Derbyn Swydd; Y Cadeirydd a'r Is gadeirydd.
2. Ymddiheuriadau.
3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar Fai 28ain, 2015 a chyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfarfu ar Fehefin 4ydd, 2015.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
    1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Mis Mehefin 2015.
    2. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Dwyfor) Cyfyngiad Cyflymder 30 40 a 50mya 2015.
    3. Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol, Gwasanaeth bws rhif 12 ac ymateb cwmni Clynnog a Trefor.
7. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:
Cais rhif C15/0524/41/LL – Newid tir amaethyddol yn faes carafanau teithiol ar gyfer 28 uned ynghyd â ffordd fynediad newydd, adeilad cyfleusterau a gosod tanc septic; Cefn Uchaf, Garndolbenmaen.
8. Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref:
1. Cyhoeddi ymlymiad gwleidyddol. Am wn i pob Cynghorydd sydd yn talu aelodaeth plaid wleidyddol i fynegi hynny yn y cyfarfod.
2. Cofrestru buddiannau aelodau. Canllaw a ffurflen yn amgaedig. Mae hwn yn 8 tudalen ac os ydych chi eisiau imi ddarparu copi ichi fedrwch chi adael imi wybod os gwelwch yn dda; mae 8 tudalen x 15 cynghorydd yn 120 tudalen x 10c = £12-. Efallai y byddai'n syniad da peidio llenwi'r ffurflen tan ar ôl cyfarfod nos Iau.
9. **Materion yn y gymuned**.
Chwilog.
Llanystumdwy
Pencaenewydd

10. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd; Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd, Polisi Gosod Tai Cyffredin. Mae hwn yn 37 tudalen a does gen i ddim bwriad i'w argraffu ond rwyf yn amgau copi.
11. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis.
12. Sefydlu Pwyllgor Cynllun Busnes.
13. Grŵp Cynefin; Grant Datblybu Cymunedol Grŵp Cynefin.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.